# Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion – Canfyddiadau Blwyddyn 1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif y ddogfen: 90/2014

Lansiwyd GAD yn 2012 ac mae'n darparu cyllid ychwanegol i ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion ar eu cofrestr sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim neu sydd yn Blant sy'n Derbyn Gofal. Mae ysgolion yn cael eu darparu gydag arweiniad ac yn cael eu cyfeirio at i wario'r arian ychwanegol ar ymyriadau ar sail tystiolaeth i helpu i gau'r bwlch cyrhaeddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y flwyddyn gyntaf o waith gwerthuso. Mae tair prif elfen i'r gwerthusiad: arolwg o 201 o ysgolion a gwblhawyd yng ngwanwyn 2014; astudiaethau achos manwl o 22 o ysgolion, gyda 12 ohonynt wedi eu cwblhau ar adeg llunio'r adroddiad; a gwaith dadansoddi manwl o ddata cyrhaeddiad ac absenoldeb disgyblion o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion

**Canfyddiadau allweddol**:

- Yn sgil cyflwyno GAD, bu ysgolion yn ariannu gweithgarwch newydd sylweddol gyda'r nod o gynorthwyo disgyblion y nodir eu bod o dan anfantais.
- Er mai cyfran cymharol fach o gyfanswm cyllideb ysgolion yw GAD (llai na 4% ar gyfartaledd), mae'r grant yn golygu symiau sylweddol o arian y mae'r ysgolion yn eu gwario ar weithgareddau i fynd i'r afael ag anfantais: ar gyfartaledd, derbyniodd ysgolion cynradd £12,676, a derbyniodd ysgolion uwchradd gyfartaledd o £61,311 o gyllid GAD 2012-13.
- Roedd mwy na hanner yr ymyriadau a ariennir ar hyn o bryd gan ddefnyddio GAD (58% mewn ysgolion cynradd, 71% mewn ysgolion uwchradd) heb fod ar waith yn yr ysgolion cyn cyflwyno GAD.
- Ar gyfartaledd, mae ysgolion cynradd yn cynnal 3.4 ymyriad, sydd ar gyfartaledd yn targedu 35 o ddisgyblion yr un; ac mae ysgolion uwchradd ar gyfartaledd yn cynnal 5.0 ymyriad, gan dargedu cyfartaledd o 174 o ddisgyblion. Er hyn, mae amrywiaeth sylweddol ym maint a chyrhaeddiad y rhaglenni a gyllidir gan GAD, yn arbennig ar lefel uwchradd.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau Pellach**

- Ymysg ysgolion cynradd, caiff cyllid GAD ei ddefnyddio'n aml i ariannu rhaglenni llythrennedd (37% o ymyriadau'r ysgolion cynradd) a rhifedd (25% o ymyriadau'r ysgolion cynradd). Nid yw'r patrwm mor glir yn yr ysgolion uwchradd: ymyriadau llythrennedd a rhifedd yw 17% ac 16% o'r rhaglenni yn yr ysgolion uwchradd, a chaiff ymyriadau eu hanelu mwy at faterion bugeiliol ar y lefel hon.
- Yn ôl y data a gasglwyd gan y gwerthusiad, o'r disgyblion sy'n elwa o ymyriadau a ariennir gan GAD, dim ond 60% o'r disgyblion cynradd a 72% o'r disgyblion uwchradd sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim neu'n Blant sy'n Derbyn Gofal; er hyn, noda'r gwerthusiad hefyd fod ysgolion yn cyfrannu symiau sylweddol o gyllid ychwanegol o'u cyllidebau eu hunain neu o ffrydiau cyllido eraill i ariannu gweithgareddau GAD. Fodd bynnag mae'r gwerthusiad hefyd nodi bod ysgolion yn neilltuo symiau sylweddol o arian ychwanegol ar gyfer gweithgarwch GAD yn y modd y maent yn ariannu ymyriadau, felly nid yw'r ysgolion o anghenraid yn gwario arian y Grant ar ddisgyblion ar wahân i rai sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim neu Blant sy'n Derbyn Gofal, er mai cymhleth fyddai datblethu'r elfennau hyn.
- Nododd tua naw o bob deg o'r ysgolion (86% cynradd, 91% uwchradd) eu bod yn neilltuo arian ychwanegol at weithgareddau a ariennir gan GAD, fel arfer o gyllideb gyffredinol yr ysgol a/neu Grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Fel arfer, mae cyfraniadau ariannol yr ysgolion i weithgareddau GAD o ffrydiau refeniw eraill yn sylweddol. Yn ôl tystiolaeth yr astudiaethau achos, mae'r ysgolion weithiau yn ystyried bod y gweithgareddau yr hoffent eu hariannu drwy GAD yn fuddiol i'r disgyblion yn fwy cyffredinol. Nododd sawl un o ysgolion yr astudiaethau achos na allai arian CAD ar ei ben ei hun eu galluogi i ariannu'r ymyriadau sydd ar waith ganddynt i gynorthwyo disgyblion dan anfantais, ac

mae'n glir bod effaith GAD yn ddibynnol ar fodolaeth grantiau a chronfeydd eraill sydd â nodau ategol.

- Yn bennaf, mae ysgolion yn defnyddio eu systemau monitro data a'u profiad eu hunain i gynllunio a monitro'r gweithgareddau a ariennir ganddynt drwy GAD: nododd 79% o'r ysgolion cynradd a 74% o'r ysgolion uwchradd eu bod yn defnyddio eu data eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yr astudiaethau achos yn casglu a monitro amrywiaeth eang o ddata am ddisgyblion, gan gynnwys cyrhaeddiad, presenoldeb, a lles.
- Llai na hanner yr ysgolion (36% cynradd, 49% uwchradd) a ddwedodd eu bod yn defnyddio Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, er i'r canllawiau argymell defnyddio'r pecyn. Yn yr astudiaethau achos, ceir yr awgrym mai'r rheswm am hyn yw naill ai bod yr ysgolion yn teimlo bod y pecyn cymorth yn cyfeirio at ddulliau y maent eisoes yn defnyddio, neu nad yw argymhellion y pecyn yn berthnasol i'w sefyllfa benodol hwy. Hyd yn oed ymysg yr ysgolion hynny a bu ddefnyddio Becyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, ychydig iawn o dystiolaeth a welsom drwy'r astudiaethau achos bod y pecyn wedi newid y gweithgareddau a wnaed gan yr ysgol yn sylweddol.
- Canfyddiad y rhan fwyaf o athrawon oedd bod hymyriadau GAD yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. Roeddynt yn fwy cadarnhaol ynglŷn ag effaith ymyriadau GAD ar ganlyniadau fel cynnal cyswllt â disgyblion a'u lles, nag ar ganlyniadau fel cyrhaeddiad a phresenoldeb. Ar y llaw arall, mae'n llai tebygol bod ysgolion o'r farn bod GAD wedi cael effaith gadarnhaol fawr ar bresenoldeb disgyblion neu ar gyrhaeddiad disgyblion. O ystyried bod lles a phresenoldeb yn rhagofynion pwysig ar gyfer cyrhaeddiad gall fod yn yr amser hwnnw a roddir bydd canlyniadau pellach amlygu o ganlyniad i weithgareddau a ariennir gan GAD.

- Cymysg yw'r dystiolaeth ar gynaliadwyedd gweithgarwch GAD, er y gwelwyd drwy'r astudiaethau achos bod y gweithgarwch wedi arwain at newid diwylliant mewn llawer o ysgolion drwy wella proffil a chodi ymwybyddiaeth o sut gall ysgolion fynd i'r afael ag anfantais a monitro effaith ymyriadau sydd wedi eu targedu at ddisgyblion dan anfantais.
- Yn y cam hwn yn y gwerthusiad, nid oedd yr asesiad o p'run ai yw'r GAD yn cael effaith ar gyrhaeddiad ac absenoldeb yn gallu dod i gasgliadau pendant ynghylch faint o'r gwelliannau mewn deilliannau y gellir eu priodoli i gyflwyno'r PDG neu p'run ai oedd hyn yn ganlyniad i duedd tuag at wella a oedd yn bodoli eisoes.
- Hyd yma, mae'r gwerthusiad wedi canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth am y broses o weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn hytrach na'i draweffaith; bydd camau hwyrach y gwerthusiad yn ceisio dod i gasgliadau ynghylch traweffaith y Grant, ac effeithiau'r cynnydd un-tro mewn cyllid yn 2014/15.

Awdur: David Roberts
David.roberts@wales.gsi.gov.uk
22 Hydref 2014
ISBN: 978-1-4734-2385-5